Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

**Cyngor Sir Ceredigion County Council**

**Cyfarfod y Cyngor**

**20 Ebrill 2023**

**Agenda Atodol**

16. Hysbysu'r Cyngor o'r sawl sydd wedi'u penodi'n Swyddogion Arweiniol Corfforaethol dros dro (Tudalennau 3 - 8)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 1

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20 Ebrill 2023** |
| **Teitl:** | **Hysbysu'r Cyngor o'r sawl sydd wedi'u penodi'n Swyddogion Arweiniol Corfforaethol dros dro** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **a) Hysbysu'r Cyngor o'r sawl sydd wedi'u penodi i'r swyddi canlynol dros dro:**<br>• **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes, am gyfnod o hyd at 2 flynedd;**<br>• **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion, am gyfnod o hyd at 2 flynedd**<br><br>**b) Hysbysu'r Cyngor bod cyfnod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei swydd wedi'i ymestyn am hyd at 6 mis, o 18 Ebrill 2023 ymlaen.**<br><br>**Er gwybodaeth** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Bryan Davies Arweinydd y Cyngor** |

**a) Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg statudol) a Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Ysgolion (a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg)**

Bydd Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion (a'r Prif Swyddog Addysg statudol) yn gadael yr Awdurdod yn fuan i ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Yn dilyn sesiwn friffio gyda'r Prif Weithredwr, bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod hyn wedi cynnig y cyfle i rannu'r rôl bresennol yn ddwy rôl newydd dros dro. Bydd hyn yn cynyddu'r capasiti wrth i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r agenda diwygio addysg a bydd yn caniatáu i ni ddod â rhai agweddau ar lesiant a chynhwysiant yn ôl o dan y o dan y Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes diwygiedig. Caiff goblygiadau ariannol rhannu'r rôl yn y ffordd hon ei hariannu'n llawn gan gyllideb annirprwyedig y gwasanaeth ac ni chaiff unrhyw effaith ar y cyllidebau a ddirprwyir i'r ysgolion.

Mae'r ddwy rôl fel a ganlyn:

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg statudol);
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion (a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg)

**Y Broses Recriwtio**
Roedd y broses o recriwtio'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Dysgu Gydol Oes a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Ysgolion fel a ganlyn:

1. Cynhaliwyd sesiwn briffio i'r Aelodau ar 17 Mawrth 2023;
2. Gofynnwyd am geisiadau / datganiadau o ddiddordeb am y ddwy swydd o blith staff y Cyngor a staff yr Ysgolion;
3. Cynigiwyd y rolau am hyd at 24 mis ar sail secondiad, gan adolygu'r trefniadau'n ffurfiol ar ôl 18 mis;
4. Dewiswyd tri Aelod Etholedig ar gyfer y Panel Penodi sef
    - Y Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd Grŵp – Plaid Cymru);
    - Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Arweinydd Grŵp – Aelodau Annibynnol);
    - Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Arweinydd Grŵp – Democratiaid Rhyddfrydol);
5. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 17 Ebrill 2023;
6. Byddai'r Cyngor yn cael gwybod am y sawl a benodwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023.

**Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg statudol) (secondiad)**
Gwnaeth y Pwyllgor gyfweld â'r ymgeisydd cymwys ar 17 Ebrill 2023.

Ystyriodd y Pwyllgor yr atebion a roddwyd gan yr ymgeisydd a rhoddodd Eifion Evans, y Prif Weithredwr; Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol a James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol gyngor.

Ar ôl ystyriaeth ofalus a phleidlais, penderfynodd y Pwyllgor y dylid penodi Mrs Elen James yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes (a Phrif Swyddog Addysg) ar secondiad o ddwy flynedd gan ddechrau cyn gynted ag y bo modd ar ôl 15 Mai 2023, ar ôl penodi rhywun i'w swydd bresennol; ar gyflog o £85,381, sef y drydydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 Swyddog Arweiniol Corfforaethol (dyfarniad cyflog yn yr arfaeth).

Yn dilyn penodiad Mrs James, bydd yr un broses yn cychwyn yn fuan ar gyfer penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Porth Cymorth Cynnar.

**Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Ysgolion (a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg) (secondiad)**
Gwnaeth y Pwyllgor gyfweld â'r ymgeisydd cymwys ar 17 Ebrill 2023.

Ystyriodd y Pwyllgor yr atebion a roddwyd gan yr ymgeisydd a rhoddodd Eifion Evans, y Prif Weithredwr; Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol a James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol gyngor.

Ar ôl ystyriaeth ofalus a phleidlais, penderfynodd y Pwyllgor y dylai Mr Clive Williams gael cynnig swydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion (a Dirprwy Brif Swyddog Addysg) ar secondiad o ddwy flynedd gan ddechrau ar 15 Mai 2023 neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny, ar gyflog o £80,275, sef y pedwerydd

pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A1 Swyddog Arweiniol Corfforaethol (dyfarniad cyflog yn yr arfaeth).

**b) Ymestyn cyfnod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal dros dro a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am hyd at 6 mis arall**

Ym mis Hydref 2022, cafodd y Cyngor wybod bod Ms Audrey Somerton-Edwards wedi'i chyflogi fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy asiantaeth am gyfnod o 6 mis o 17 Hydref 2022 ymlaen.

Mae'r broses ar gyfer recriwtio Swyddog Arweiniol Corfforaethol parhaol - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dechrau a bydd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Rhestr Fer a Chyngor Arbennig yn cael eu cynnal maes o law. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gan y Cyngor Gyfarwyddwr Statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag Adran 144, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

O ystyried hyn, bydd cyfnod Ms Audrey Somerton-Edwards fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy asiantaeth yn cael ei ymestyn am hyd at 6 mis arall, o 18 Ebrill 2023 ymlaen.

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os 'nac oes', nodwch pam** | Nac oes - nid yw hyn yn ymwneud â newid mewn polisi neu wasanaeth. |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** Ddim yn berthnasol<br>**Integreiddio:** Ddim yn berthnasol<br>**Cydweithio:** Ddim yn berthnasol<br>**Cynnwys:** Ddim yn berthnasol<br>**Atal:** Ddim yn berthnasol | |

**Argymhelliad:**

**a) Nodi bod y canlynol wedi'u penodi:**

- **Mrs Elen James fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Dysgu Gydol Oes am gyfnod o hyd at ddwy flynedd gan ddechrau cyn gynted ag y bo modd ar ôl 15 Mai 2023, ar ôl penodi rhywun i'w swydd bresennol; ar gyflog o £85,381 (sef y drydydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 Swyddog Arweiniol Corfforaethol).**
- **Mr Clive Williams fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Ysgolion am gyfnod o hyd at ddwy flynedd o 15 Mai 2023 ymlaen, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny, ar gyflog o £80,275 (sef y pedwerydd pwynt**

**cynyddrannol ar raddfa gyflog A1 Swyddog Arweiniol Corfforaethol)**

**b) Nodi y bydd cyfnod Ms Audrey Somerton-Edwards fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy asiantaeth yn cael ei ymestyn am hyd at 6 mis arall, o 18 Ebrill 2023 ymlaen.**

| | |
|---|---|
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Hysbysu'r Cyngor o'r penodiadau canlynol:**<br>• **Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg statudol)**<br>• **Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Ysgolion (a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg)**<br>• **Ymestyn cyfnod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am hyd at 6 mis arall.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Ddim yn berthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Cyfansoddiad y Cyngor |
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Cefnogi'r modd y cyflawnir Amcanion Llesiant y Cyngor<br>• Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth<br>• Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach<br>• Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu<br>• Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd |
| **Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:** | O fewn cyllidebau'r gwasanaeth. |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau o ran Staff:** | Penodi'r canlynol am gyfnod o hyd at 2 flynedd:<br>• Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg statudol)<br>• Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Ysgolion (a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg)<br>• Ymestyn y cyfnod y penodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal dros dro a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am hyd at 6 mis arall |
| **Goblygiadau o ran eiddo / asedau** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Risgiau:** | • Pe na fyddai Prif Swyddog Addysg statudol yn cael ei benodi, ni fyddai'r Cyngor yn cydymffurfio ag Adran 532, Deddf Addysg 1996 a byddai'r rheoleiddiwr addysg Estyn yn dod yn ymwybodol o hyn.<br><br>• Pe na fyddai Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei benodi, ni fyddai'r Cyngor yn cydymffurfio ag Adran 144, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddai Arolygiaeth Gofal Cymru, rheoleiddiwr y sector gofal cymdeithasol, yn dod yn ymwybodol o hyn. |
| **Pwerau Statudol:** | • Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;<br>• Adran 532, Deddf Addysg 1996;<br>• Adran 144, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| **Papurau Cefndir:** | Adroddiad i'r Cyngor - 20 Hydref 2022 |
| **Atodiadau:** | Dim. |
| **Swyddog Adrodd:** | Eifion Evans, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad:** | 18 Ebrill 2023 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol